

Agenda – Equality, Local Government and Communities Committee

Meeting Venue:

Committee Room 3 – Senedd

Meeting date: 29 November 2018

Meeting time: 09.00

For further information contact:

Naomi Stocks

Committee Clerk

0300 200 6222

SeneddCommunities@assembly.wales

Pre-meeting (09.00 – 09.15)

1 Introductions, apologies, substitutions and declarations of interest

2 Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Bill: Stage 2 proceedings

(09.15 – 12.30)

(Pages 1 – 30)

Rebecca Evans AM, Minister for Housing and Regeneration

Emma Williams, Deputy Director, Housing Policy Division, Welsh Government

Helen Kellaway, Lawyer, Welsh Government

Documents relevant to Stage 2 proceedings will be available on the [Bill page](#).

The Equality, Local Government and Communities Committee agreed on 7 November 2018, under Standing Order 26.21, that the order of consideration for Stage 2 proceedings will be:

- Sections 1 to 4
- Schedule 1
- Sections 5 to 9
- Schedule 2
- Sections 10 to 25
- Long title

Paper 1 – Marshalled List of Amendments



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Paper 2 – Groupings of Amendments

RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Bill will be considered in the following order –

Sections 1 - 4	Adrannau 1 - 4
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 5 - 9	Adrannau 5 - 9
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 10 - 25	Adrannau 10 - 25
Long title	Teitl hir

David Melding 30

Section 2, page 1, line 28, after 'grant,', insert 'termination,'.
Adran 2, tudalen 1, llinell 31, ar ôl 'roi', mewnosoder ', o derfynu'.

Leanne Wood 15

Section 2, page 2, line 13, leave out 'may' and insert 'must'.
Adran 2, tudalen 2, llinell 14, hepgorer 'Caiff y' a mewnosoder 'Rhaid i'r'.



Leanne Wood 16

Section 2, page 2, after line 15, insert –

- '(7) The court by which a person (“the offender”) is convicted of an offence under subsection (1) may order the licensing authority to revoke the offender’s licence under section 25(1) (b) of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7).
- (8) For the purposes of this section “licensing authority” means the licensing authority designated under section 3 of Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7).'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

- '(7) Caiff y llys sy'n euogfarnu person (“y troseddwr”) o drosedd o dan is-adran (1) orchymyn i'r awdurdod trwyddedu ddirymu trwydded y troseddwr o dan adran 25(1) (b) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7).
- (8) At ddibenion yr adran hon ystyr “awdurdod trwyddedu” yw'r awdurdod trwyddedu a ddynodir o dan adran 3 o Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7).'

David Melding 31

Section 3, page 2, line 18, after ‘grant’, insert ‘termination’.

Adran 3, tudalen 2, llinell 19, ar ôl ‘roi’, mewnosoder ‘, terfynu’.

Leanne Wood 17

Section 3, page 2, line 28, leave out ‘may’ and insert ‘must’.

Adran 3, tudalen 2, llinell 30, hepgorer ‘Caiff y’ a mewnosoder ‘Rhaid i’r’.

Leanne Wood 18

Section 3, page 2, after line 30, insert –

- '(6) The court by which a person (“the offender”) is convicted of an offence under subsection (1) may order the licensing authority to revoke the offender’s licence under section 25(1) (b) of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7).
- (7) For the purposes of this section “licensing authority” means the licensing authority designated under section 3 of Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7).'

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- '(6) Caiff y llys sy'n euogfarnu person (“y troseddwr”) o drosedd o dan is-adran (1) orchymyn i'r awdurdod trwyddedu ddirymu trwydded y troseddwr o dan adran 25(1) (b) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7).
- (7) At ddibenion yr adran hon ystyr “awdurdod trwyddedu” yw'r awdurdod trwyddedu a ddynodir o dan adran 3 o Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7).'

Rebecca Evans 1

Section 4, page 2, line 33, leave out ‘letting agency’ and insert ‘lettings’.



Adran 4, tudalen 2, llinell 36, hepgorer 'asiantaeth gosod eiddo' a mewnosoder 'gosod'.

Rebecca Evans

2

Section 4, page 3, after line 5, insert –

'(e) payments in respect of council tax.'

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

'(e) taliadau mewn cysylltiad â'r dreth gyngor.'

Rebecca Evans

3

Section 4, page 3, after line 5, insert –

'(e) payments in respect of utilities.'

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

'(e) taliadau mewn cysylltiad â chyfleustodau.'

Rebecca Evans

4

Section 4, page 3, after line 5, insert –

'(e) payments in respect of a television licence.'

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

'(e) taliadau mewn cysylltiad â thrwydded deledu.'

Rebecca Evans

5

Section 4, page 3, after line 5, insert –

'(e) payments in respect of communication services.'

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

'(e) taliadau mewn cysylltiad â gwasanaethau cyfathrebu.'

****Leanne Wood**

19

Gyda chefnogaeth / Supported by: David Melding

Section 4, page 3, after line 5, insert –

'(e) payment in respect of council tax;

(f) payment in respect of an utility;

(g) payment in respect of a television licence.'

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

'(e) taliad mewn cysylltiad â'r dreth gyngor;



- (f) taliad mewn cysylltiad â chyfleustod;
- (g) taliad mewn cysylltiad â thrwydded deledu.’.

David Melding

32

Section 4, page 3, after line 5, insert –

‘(e) payment on termination of a contract.’.

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

‘(e) taliad ar derfynu contract.’.

David Melding

51

Schedule 1, page 13, after line 4, insert –

‘[] At all times, a landlord or person acting on behalf of the landlord is only permitted to be in receipt of one holding deposit per dwelling.’.

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

‘[] Ar bob adeg, dim ond un blaendal cadw y caniateir i landlord neu berson sy’n gweithredu ar ran y landlord ei dderbyn fesul annedd.’.

Rebecca Evans

10

Schedule 1, page 13, after line 11, insert –

‘Payment in respect of council tax

- [] (1) A payment that a contract-holder is required to make to a billing authority in respect of council tax is a permitted payment if the contract-holder is liable to make the payment by virtue of any of sections 6, 8 or 9 of the Local Government Finance Act 1992.
- (2) In this paragraph “billing authority” has the same meaning as in Part 1 of the Local Government Finance Act 1992 (see section 1(2) of that Act).’.

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘Taliad mewn cysylltiad â’r dreth gyngor

- [] (1) Mae taliad y mae’n ofynnol i ddeiliad contract ei wneud i awdurdod bilio mewn cysylltiad â’r dreth gyngor yn daliad a ganiateir os yw deiliad y contract yn atebol am wneud y taliad yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o adrannau 6, 8 neu 9 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
- (2) Yn y paragraff hwn mae i “awdurdod bilio” yr un ystyr ag a roddir i “billing authority” yn Rhan 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (gweler adran 1(2) o’r Ddeddf honno).’.



Rebecca Evans

11

Schedule 1, page 13, after line 11, insert –

‘Payment in respect of provision of utilities

- [] (1) A payment for or in connection with the provision of a utility is a permitted payment if –
- (a) it is required under a standard occupation contract, and
 - (b) it is made in respect of the dwelling subject to the contract.
- (2) In this Act “utility” means any of the following –
- (a) electricity, gas or other fuel;
 - (b) water or sewerage.’

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘Taliad mewn cysylltiad â darparu cyfleustodau

- [] (1) Mae taliad ar gyfer darparu cyfleustod, neu mewn cysylltiad â hynny, yn daliad a ganiateir –
- (a) os yw’n ofynnol o dan contract meddiannaeth safonol, a
 - (b) os caiff ei wneud mewn cysylltiad â’r annedd sy’n ddarostyngedig i’r contract.
- (2) Yn y Ddeddf hon ystyr “cyfleustod” yw unrhyw un neu ragor o’r canlynol –
- (a) trydan, nwy neu danwydd arall;
 - (b) dŵr neu garthffosiaeth.’

Rebecca Evans

12

Schedule 1, page 13, after line 11, insert –

‘Payment in respect of television licence

- [] (1) A payment that a contract-holder is required to make to the British Broadcasting Corporation in respect of a television licence is a permitted payment if the contract-holder is required by the contract to make the payment.
- (2) In this paragraph “television licence” means a licence for the purposes of section 363 of the Communications Act 2003.’

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘Taliad mewn cysylltiad â thrwydded deledu

- [] (1) Mae taliad y mae’n ofynnol i ddeiliad contract ei wneud i’r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig mewn cysylltiad â thrwydded deledu yn daliad a ganiateir os yw’n ofynnol gan y contract i ddeiliad y contract wneud y taliad.



- (2) Yn y paragraff hwn ystyr “trwydded deledu” yw trwydded at ddibenion adran 363 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.’.



Rebecca Evans

13

Schedule 1, page 13, after line 11, insert –

‘Payment in respect of communication service

- [] (1) A payment for or in connection with a communication service is a permitted payment if –
- (a) it is required under a standard occupation contract, and
 - (b) it is made in respect of the dwelling subject to the contract.
- (2) In this paragraph, a “communication service” means a service enabling any of the following to be used –
- (a) a telephone other than a mobile telephone;
 - (b) the internet;
 - (c) cable television;
 - (d) satellite television.’.

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘Taliad mewn cysylltiad â gwasanaeth cyfathrebu

- [] (1) Mae taliad ar gyfer gwasanaeth cyfathrebu, neu mewn cysylltiad â hynny, yn daliad a ganiateir –
- (a) os yw’n ofynnol o dan contract meddiannaeth safonol, a
 - (b) os caiff ei wneud mewn cysylltiad â’r annedd sy’n ddarostyngedig i’r contract.
- (2) Yn y paragraff hwn, ystyr “gwasanaeth cyfathrebu” yw gwasanaeth sy’n galluogi unrhyw un neu ragor o’r canlynol i gael ei ddefnyddio neu eu defnyddio –
- (a) ffôn ac eithrio ffôn symudol;
 - (b) y rhynggrwyd;
 - (c) teledu cebl;
 - (d) teledu lloeren.’.

Leanne Wood

21

Schedule 1, page 13, leave out line 11 and insert –

- () an act or an omission by the contract-holder which results in the keys to the property being lost.’.

Atodlen 1, tudalen 13, hepgorer llinell 11 a mewnosoder –

- () gweithred neu anweithred gan ddeiliad y contract sy’n arwain at gollu’r allweddi i’r eiddo.’.



Leanne Wood

22

Schedule 1, page 13, after line 11, insert –

‘(3) But if the amount of the payment in the event of default exceeds the prescribed limit, the payment is a prohibited payment.’.

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘(3) Ond os yw swm y taliad yn achos diffyg daliad yn fwy na’r terfyn rhagnodedig, mae’r taliad yn daliad gwaharddedig.’.

Leanne Wood

23

Schedule 1, page 13, after line 11, insert –

‘(3) In sub-paragraph [*sub-paragraph to be inserted by amendment 22*], the “prescribed limit” means a limit specified by, or determined in accordance with, regulations.’.

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘(3) Yn is-baragraff [*yr is-baragraff sy’n cael ei fewnosod gan welliant 22*], ystyr “terfyn rhagnodedig” yw terfyn a bennir gan reoliadau, neu a benderfynir yn unol â rheoliadau.’.

Leanne Wood

24

Schedule 1, page 13, after line 11, insert –

‘(3) But a fee charged for late payment of rent is only a permitted payment if the rent is overdue by 14 days or more.’.

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘(3) Ond mae ffi a godir am daliad rhent hwyr dim ond yn daliad a ganiateir os yw’r rhent yn orddyledus ers 14 diwrnod neu hwy.’.

Leanne Wood

25

Schedule 1, page 13, after line 11, insert –

‘[] Only one payment may be required per rental period with respect to a failure by the contract-holder to pay rent; accordingly, any subsequent payment required with respect to late payment of rent in the same rental period is not a permitted payment.’.

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘[] Dim ond un taliad y caniateir ei wneud yn ofynnol fesul cyfnod rhentu mewn cysylltiad â methiant deiliad y contract i dalu rhent; yn unol â hynny, nid yw unrhyw daliad dilynol sy’n ofynnol mewn cysylltiad â thaliad rhent hwyr yn yr un cyfnod rhentu yn daliad a ganiateir.’.



***Leanne Wood**

Gyda chefnogaeth / Supported by: David Melding

26

Schedule 1, page 13, after line 11, insert –

‘Payment in respect of council tax

- [] (1) A payment to a billing authority in respect of council tax is a permitted payment.
- (2) In this paragraph “billing authority” has the same meaning as in Part 1 of the Local Government Finance Act 1992 (see section 1(2) of that Act).

Payment in respect of utilities

- [] (1) A payment for or in connection with the provision of a utility is a permitted payment if the occupation contract requires the payment to be made.
- (2) A payment towards energy efficiency improvements under a green deal plan (within the meaning of section 1 of the Energy Act 2011) is a permitted payment if the occupation contract requires the payment to be made.
- (3) In this Act “utility” means –
- (a) electricity, gas or other fuel, or
 - (b) water or sewerage.

Payment in respect of a television licence

- [] (1) A payment to the British Broadcasting Corporation in respect of a television licence is a permitted payment if the occupation contract requires the payment to be made.
- (2) In this paragraph “television licence” means a licence for the purposes of section 363 of the Communications Act 2003.’.

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘Taliad mewn cysylltiad â’r dreth gyngor

- [] (1) Mae taliad i awdurdod bilio mewn cysylltiad â’r dreth gyngor yn daliad a ganiateir.
- (2) Yn y paragraff hwn mae i “awdurdod bilio” yr un ystyr ag a roddir i “billing authority” yn Rhan 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (gweler adran 1(2) o’r Ddeddf honno).

Taliad mewn cysylltiad â chyfleustodau

- [] (1) Mae taliad ar gyfer darparu cyfleustod, neu mewn cysylltiad â hynny, yn daliad a ganiateir os yw’r contract meddiannaeth yn ei gwneud yn ofynnol i’r taliad gael ei wneud.
- (2) Mae taliad tuag at welliannau effeithlonrwydd ynni o dan gynllun bargaen werdd (o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Ynni 2011) yn daliad a ganiateir os yw’r contract meddiannaeth yn ei gwneud yn ofynnol i’r taliad gael ei wneud.
- (3) Yn y Ddeddf hon ystyr “cyfleustod” yw –
- (a) trydan, nwy neu danwydd arall; neu



(b) dŵr neu garthffosiaeth.

Taliad mewn cysylltiad â thrwydded deledu

- [] (1) Mae taliad i'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig mewn cysylltiad â thrwydded deledu yn daliad a ganiateir os yw'r contract meddiannaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r taliad gael ei wneud.
- (2) Yn y paragraff hwn ystyr "trwydded deledu" yw trwydded at ddibenion adran 363 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.'

David Melding

52

Schedule 1, page 13, after line 26, insert –

'Payment on termination of a contract

- 7 (1) A payment is a permitted payment if it is a payment to a landlord in consideration of the termination of a contract at the contract-holder's request –
- (a) in the case of a fixed term standard contract, before the end of the term, or
 - (b) in the case of a periodic standard contract, without the tenant giving the period of notice required under the standard occupation contract.
- (2) But if the amount of the payment exceeds the loss suffered by the landlord as a result of the termination of the contract, the amount of the excess is a prohibited payment.
- (3) A payment is a permitted payment if it is a payment to a letting agent in consideration of arranging the termination of a contract at the contract-holder's request –
- (a) in the case of a fixed term standard contract, before the end of the term, or
 - (b) in the case of a periodic standard contract, without the tenant giving the period of notice required under the standard occupation contract.
- (4) But if the amount of the payment exceeds the reasonable costs of the letting agent in respect of the termination of the contract, the amount of the excess is a prohibited payment.
- (5) In this paragraph "fixed term contract" means any standard occupation contract other than a periodic standard contract.'

Atodlen 1, tudalen 13, ar ôl llinell 26, mewnosoder –

'Taliad ar derfynu contract

- 7 (1) Mae taliad yn daliad a ganiateir os yw'n daliad i landlord fel cydnabyddiaeth am derfynu contract ar gais deiliad y contract –
- (a) yn achos contract safonol cyfnod penodol, cyn diwedd tymor y contract, neu
 - (b) yn achos contract safonol cyfnodol, heb i'r tenant roi'r cyfnod o rybudd sy'n ofynnol o dan y contract meddiannaeth safonol.
- (2) Ond os yw swm y taliad yn fwy na'r golled i'r landlord yn sgil terfynu'r contract, mae'r swm ychwanegol yn daliad gwaharddedig.



- (3) Mae taliad yn daliad a ganiateir os yw'n daliad i asiant gosod eiddo fel cydnabyddiaeth am drefnu i derfynu contract ar gais deiliad y contract –
 - (a) yn achos contract safonol cyfnod penodol, cyn diwedd tymor y contract, neu
 - (b) yn achos contract safonol cyfnodol, heb i'r tenant roi'r cyfnod o rybudd sy'n ofynnol o dan y contract meddiannaeth safonol.
- (4) Ond os yw swm y taliad yn fwy na chostau rhesymol yr asiant gosod eiddo yn sgil terfynu'r contract, mae'r swm ychwanegol yn daliad gwaharddedig.
- (5) Yn y paragraff hwn, ystyr "contract tymor penodol" yw unrhyw gontract meddiannaeth safonol heblaw contract safonol cyfnodol.'

Rebecca Evans

6

Page 3, line 22, leave out section 8 and insert –

[] Meaning of "letting agent", "lettings work" and "property management work"

For the purposes of this Part and Parts 3 to 5 –

"letting agent" (*"asiant gosod eiddo"*) means a person who carries out lettings work or property management work (whether or not the person carries out other work);

"lettings work" (*"gwaith gosod"*) and "property management work" (*"gwaith rheoli eiddo"*) have the same meaning as in Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 (see sections 10 and 12 of that Part).'

Tudalen 3, llinell 24, hepgorer adran 8 a mewnosoder –

[] Ystyr "asiant gosod eiddo", "gwaith gosod" a "gwaith rheoli eiddo"

At ddibenion y Rhan hon a Rhannau 3 i 5 –

ystyr "asiant gosod eiddo" (*"letting agent"*) yw person sy'n ymgymryd â gwaith gosod neu waith rheoli eiddo (pa un a yw'r person hwnnw'n ymgymryd â gwaith arall ai peidio);

mae i "gwaith gosod" (*"lettings work"*) a "gwaith rheoli eiddo" (*"property management work"*) yr un ystyron ag yn Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (gweler adrannau 10 a 12 o'r Rhan honno).'

Leanne Wood

27

Schedule 2, page 14, after line 16, insert –

- '(c) the contract-holder notifies the landlord within 48 hours of paying the holding deposit that the contract-holder has decided not to enter into the contract.'

Atodlen 2, tudalen 14, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

- '(c) os yw deiliad y contract yn hysbysu'r landlord o fewn 48 awr i dalu'r blaendal cadw fod deiliad y contract wedi penderfynu peidio ag ymrwymo i'r contract.'



Leanne Wood

28

Schedule 2, page 14, after line 19, insert –

- '(c) where paragraph [*sub-subparagraph to be inserted by amendment 27*] applies, the day on which the contract-holder notifies the landlord that the contract-holder has decided not to enter into the contract.'

Atodlen 2, tudalen 14, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- '(c) pan fo paragraff [*yr is-baragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 27*] yn gymwys, y diwrnod y mae deiliad y contract yn hysbysu'r landlord fod deiliad y contract wedi penderfynu peidio ag ymrwymo i'r contract.'

Rebecca Evans

14

Schedule 2, page 14, line 28, leave out paragraph 7.

Atodlen 2, tudalen 14, llinell 30, hepgorer paragraff 7.

Leanne Wood

29

Schedule 2, page 15, line 1, after 'contract-holder', insert 'knowingly or recklessly'.

Atodlen 2, tudalen 15, llinell 2, ar ôl 'gamarweiniol', mewnosoder 'yn fwriadol neu'n ddi-hid'.

David Melding

33

Section 10, page 4, line 7, after 'authority', insert 'or of a licensing authority designated under section 3 of Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7)'.

Adran 10, tudalen 4, llinell 7, ar ôl 'lleol', mewnosoder 'neu swyddog awdurdodedig awdurdod trwyddedu a ddynodir o dan adran 3 o Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7)'.

David Melding

34

Section 13, page 6, line 3, after 'authority', insert 'or the licensing authority designated under section 3 of Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7)'.

Adran 13, tudalen 6, llinell 3, ar ôl 'lleol', mewnosoder 'neu'r awdurdod trwyddedu a ddynodir o dan adran 3 o Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7)'.

Rebecca Evans

7

Section 13, page 6, line 8, leave out '£500' and insert '£1000'.

Adran 13, tudalen 6, llinell 8, hepgorer '£500' a mewnosoder '£1000'.



David Melding

35

Section 13, page 6, line 8, leave out '£500' and insert '£2,000'.

Adran 13, tudalen 6, llinell 8, hepgorer '£500' a mewnosoder '£2,000'.

David Melding

36

Section 13, page 6, line 15, after 'question', insert 'or the licensing authority designated under section 3 of Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7)'.

Adran 13, tudalen 6, llinell 15, ar ôl 'sylw', mewnosoder 'neu'r awdurdod trwyddedu a ddynodir o dan adran 3 o Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7)'.

David Melding

37

Section 13, page 6, line 16, after 'authority', insert 'or by the licensing authority designated under section 3 of Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7)'.

Adran 13, tudalen 6, llinell 16, ar ôl 'lleol', mewnosoder 'neu'r awdurdod trwyddedu a ddynodir o dan adran 3 o Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7)'.

David Melding

38

Page 6, after line 19, insert a new section –

[] Duty of local housing authority to notify licensing authority on receipt of payment of fixed penalty notice

- (1) As soon as reasonably practicable after receiving payment from a person issued with a fixed penalty notice under this Act in respect of a dwelling located wholly or partly in its area, a local housing authority must comply with subsection (2).
- (2) The authority must give notification of the fixed penalty notice to the licensing authority designated under section 3 of Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7).'

Tudalen 6, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswydd awdurdod tai lleol i hysbysu awdurdod trwyddedu ar ôl derbyn taliad o hysbysiad cosb benodedig

- (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn taliad gan berson y rhoddwyd hysbysiad cosb benodedig iddo o dan y Ddeddf hon mewn cysylltiad ag annedd sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn ei ardal, rhaid i awdurdod tai lleol gydymffurfio ag is-adran (2).
- (2) Rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad am yr hysbysiad cosb benodedig i'r awdurdod trwyddedu a ddynodir o dan adran 3 o Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7).'



David Melding 39

Section 15, page 6, line 29, after 'authority', insert 'and the licensing authority designated under section 3 of Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7)'.

Adran 15, tudalen 6, llinell 29, ar ôl 'lleol', mewnosoder 'a'r awdurdod trwyddedu a ddynodir o dan adran 3 o Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7)'.

David Melding 40

Section 16, page 6, line 33, after 'authority', insert 'or of the licensing authority designated under section 3 of Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7)'.

Adran 16, tudalen 6, llinell 33, ar ôl 'lleol', mewnosoder 'neu'r awdurdod trwyddedu a ddynodir o dan adran 3 o Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7)'.

Rebecca Evans 8

Page 6, after line 35, insert a new section –

'Restrictions on termination by landlord of standard occupation contracts

[] **Amendment of Renting Homes (Wales) Act 2016: restrictions on terminating contracts**

- (1) The Renting Homes (Wales) Act 2016 is amended as follows.
- (2) After section 177 (restriction on landlord under a periodic contract giving notice for possession: breach of security or deposit requirements), insert –

"177A Restrictions on section 173: breaches of requirements of Renting Homes (Fees etc.) Act 2019

- (1) The landlord may not give a notice under section 173 at a time when –
 - (a) the landlord has required a prohibited payment (within the meaning given by the Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019) to be made, as a condition of the grant, renewal or continuance of the contract,
 - (b) as a result of the requirement, a prohibited payment has been made to the landlord or to any other person, and
 - (c) the prohibited payment has not been repaid.
- (2) The landlord may not give a notice under section 173 at a time when –
 - (a) a holding deposit (within the meaning given by the Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019) paid in relation to the contract has not been repaid, and
 - (b) the circumstances are such that the failure to repay the deposit amounts to a breach of the requirements of Schedule 2 to that Act.



- (3) In determining for the purposes of this section whether a prohibited payment or a holding deposit has been repaid, the payment or deposit is to be treated as having been repaid to the extent (if any) that it has been applied towards either or both of the following –
 - (a) a payment of rent under the contract;
 - (b) a payment required as security in respect of the contract.
- (4) This section is a fundamental provision which is incorporated as a term of all periodic standard contracts.”
- (3) In section 126 (notice procedure for variation, under section 125, of occupation contract by landlord), in subsection (2), for “or section 177 (breach of security or deposit requirements)” substitute “, section 177 (breach of security or deposit requirements) or section 177A (breach of requirements of Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019)”.
- (4) In section 183 (relevance of events under fixed term standard contract, where, at expiry, contract continues as a periodic standard contract and landlord makes claim for possession), in subsection (2), for “177” substitute “177A”.
- (5) After section 198 (restrictions on use of landlord’s break clause: security and deposit requirements), insert –

“198A Restrictions on use of landlord’s break clause: breaches of requirements of Renting Homes (Fees etc.) Act 2019

- (1) The landlord may not give notice under a landlord’s break clause at a time when –
 - (a) the landlord has required a prohibited payment (within the meaning given by the Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019) to be made, as a condition of the grant, renewal or continuance of the contract,
 - (b) as a result of the requirement, a prohibited payment has been made to the landlord or to any other person, and
 - (c) the prohibited payment has not been repaid.
- (2) The landlord may not give notice under a landlord’s break clause at a time when –
 - (a) a holding deposit (within the meaning given by the Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019) paid in relation to the contract has not been repaid, and
 - (b) the circumstances are such that the failure to repay the deposit amounts to a breach of the requirements of Schedule 2 to that Act.
- (3) In determining for the purposes of this section whether a prohibited payment or a holding deposit has been repaid, the payment or deposit is to be treated as having been repaid to the extent (if any) that it has been applied towards either or both of the following –
 - (a) a payment of rent under the contract;



- (b) a payment required as security in respect of the contract.
- (4) This section is a fundamental provision which is incorporated as a term of all fixed term standard contracts."
- (6) In section 204 (restrictions on court hearing a landlord's claims for possession) –
 - (a) in subsection (1)(a)(vii), after "177" insert ", 177A";
 - (b) in subsection (1)(a)(xiii), after "198" insert ", 198A".
- (7) In Schedule 1 (overview of fundamental provisions incorporated as terms of occupation contracts) –
 - (a) in Part 2 (periodic standard contracts), in table 4, in the notes for the entry for sections 173 to 180 (termination by notice given by landlord) –
 - (i) for "and 176" substitute ", 176, 177 and 177A";
 - (ii) for "section 176" substitute "section 177";
 - (b) in Part 3 (fixed term standard contracts), in table 5, in the notes for the entry for sections 195 to 201 (termination by notice given by landlord under landlord's break clause), for "section 196 (breach of deposit rules)" substitute "section 198 (breach of security and deposit requirements)".

Tudalen 6, ar ôl llinell 35, mewnosoder adran newydd –

'Cyfyngiadau ar derfynu gan landlord gontractau meddiannaeth safonol

[] Diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016: cyfyngiadau ar derfynu contractau

- (1) Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ar ôl adran 177 (cyfyngiad ar landlord o dan gontract cyfnodol yn rhoi hysbysiad adennill meddiant: torri gofynion sicrwydd neu flaendal), mewnosoder –

"177A Cyfyngiadau ar adran 173: torri gofynion Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) 2019

- (1) Ni chaiff y landlord roi hysbysiad o dan adran 173 ar adeg –
 - (a) pan fo'r landlord wedi ei gwneud yn ofynnol bod taliad gwaharddedig (o fewn yr ystyr a roddir gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019) yn cael ei wneud, fel amod o roi, adnewyddu neu barhau â'r contract,
 - (b) pan fo taliad gwaharddedig wedi ei wneud i'r landlord neu i unrhyw berson arall o ganlyniad i'r gofyniad, ac
 - (c) pan na fo'r taliad gwaharddedig wedi ei ad-dalu.
- (2) Ni chaiff landlord roi hysbysiad o dan adran 173 ar adeg –
 - (a) pan na fo blaendal cadw (o fewn yr ystyr a roddir gan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019) a dalwyd mewn perthynas â'r contract wedi ei ad-dalu, a
 - (b) pan fo'r amgylchiadau yn golygu bod y methiant i ad-dalu'r blaendal yn gyfystyr â thorri gofynion Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.



- (3) Wrth benderfynu at ddibenion yr adran hon pa un a yw taliad gwaharddedig neu flaendal cadw wedi ei ad-dalu, mae'r taliad neu'r blaendal i'w drin fel pe bai wedi ei ad-dalu i'r graddau (os o gwbl) ei fod wedi ei roi tuag at y naill neu'r llall o'r canlynol, neu'r ddau ohonynt—
 - (a) taliad rhent o dan y contract;
 - (b) taliad sy'n ofynnol fel sicrwydd mewn cysylltiad â'r contract.
- (4) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract cyfnodol safonol."
- (3) Yn adran 126 (y weithdrefn hysbysu ar gyfer amrywio, o dan adran 125, gontract meddiannaeth gan y landlord), yn is-adran (2), yn lle "neu adran 177 (torri gofynion sicrwydd neu flaendal)" rhodder ", adran 177 (torri gofynion sicrwydd neu flaendal) neu adran 177A (torri gofynion Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) 2019)".
- (4) Yn adran 183 (perthnasedd digwyddiadau o dan gontract safonol cyfnod penodol, pan fo contract, pan ddaw i ben, yn parhau yn gontract safonol cyfnodol a'r landlord yn gwneud hawliad meddiant), yn is-adran (2), yn lle "177" rhodder "177A".
- (5) Ar ôl adran 198 (cyfyngiadau ar y defnydd o gymal terfynu'r landlord: gofynion sicrwydd a blaendal), mewnosoder—

"198A Cyfyngiadau ar y defnydd o gymal terfynu'r landlord: torri gofynion Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) 2019

- (1) Ni chaiff y landlord roi hysbysiad o dan gymal terfynu'r landlord ar adeg—
